# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Newport Smile Centre

Dyddiad yr arolygiad: 23 Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 26 Chwefror 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-238-3



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 10

   Ansawdd profiad y claf ........ 11

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 16

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 24

4. Beth nesaf? ........ 27

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 28

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ........ 29

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 30

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 32

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

## Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

## Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

## Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi,** |

safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Newport Smiles Centre yn 14 Heol Basaleg, Casnewydd, NP20 3EA, ar 23 Tachwedd 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, nid oeddem yn gallu cael sicrwydd fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Mae hyn oherwydd canfuom dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r rheoliadau a'r safonau ym mhob maes. Bu angen i AGIC gyhoeddi hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio a llythyr sicrwydd ar unwaith ac mae hefyd wedi nodi nifer o feysydd gwella.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd sylwadau cleifion a dderbyniwyd trwy holiaduron AGIC yn gadarnhaol ynghylch y tîm staff. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion yn gymysg mewn rhai ardaloedd.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

Gan fod nifer o feysydd o ddiffyg cydymffurfio, sicrwydd ar unwaith a meysydd i'w gwella wedi cael eu nodi ar gyfer y practis hwn, dim ond crynodeb o'r rhain sy'n cael ei gyflwyno yma. Cyfeiriwch at dudalennau 7 i 11 o'r adroddiad ac Atodiad B ac C am ragor o fanylion.

- Roedd materion yn ymwneud ag ansawdd profiad y claf lle roedd angen gwelliant, e.e. mae angen mwy o wybodaeth ynglŷn â hybu iechyd ac arolwg cleifion.
- Roedd nifer o bryderon yn ymwneud â darparu gofal diogel ac effeithiol, e.e. roedd prosesau rheoli heintiau yn annigonol, roedd prosesau cadw cofnodion cleifion yn wael, ac roedd gennym bryderon ynghylch barn glinigol broffesiynol o ran cynllunio a darparu triniaeth.
- Roedd ansawdd y rheolaeth ac arweinyddiaeth yn wael.

## Meysydd o ddiffyg cydymffurfio

Nid yw'r person cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliadau 14 (1) (d), 14 (2) a 14 (6) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008,[1] Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[2] (WHTM 01-05) a Safon 1.5 canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol[3] mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau mewn modd digonol a'r amgylchedd dadheintio.

Cynhaliwyd arolygiad ar 23 Tachwedd 2017. Ni ellid rhoi sicrwydd i AGIC fod y prif ddeintydd yn cynnal arferion clinigol diogel mewn perthynas â phrosesau rheoli heintiau. Mae hyn oherwydd:

- Nid oedd y drefn archwilio rheoli heintiau yn ddigonol. Ni chynhaliwyd archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 fel sy'n ofynnol. Nid oedd yr archwiliad rheoli heintiau iComply a gwblhawyd gan staff yn y practis yn ddiweddar yn adlewyrchu canfyddiadau'r arolygwyr ar ddiwrnod yr arolygiad.

- Roedd rhaid i'r arolygwyr ddweud wrth y prif ddeintydd i roi'r gorau ar unwaith i'r gwaith o wneud argraffiadau ar gyfer tariannau ceg mewn ardal nad yw'n glinigol, a oedd yn amlwg yn aflan (ardal cegin/swyddfa). Roedd yr ardal yn hendrwm gyda thystiolaeth glir o leithder a llwydni. Roedd peiriant gwynnu dannedd a phurydd dŵr hefyd yn cael eu defnyddio a/neu eu storio yn yr ardal hon a rhaid eu symud. Mae AGIC yn ystyried bod hyn yn dangos diffyg sylweddol o farn neu arfer clinigol da.

- Nid oedd lloriau'r ystafell ddadheintio, yr ystafell driniaeth – ac ardal y cyntedd rhwng y rhain – yn cael eu cadw'n lân, i lefel dderbyniol.

- Roedd hyn i gyd er gwaethaf y ffaith fod polisi rheoli heintiau da ar ffeil a bod atodlen diwedd y dydd yn cael ei harddangos yn ardal y

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[2] https://dental.walesdeanery.org/quality-improvement/national-audit-projects/whtm-01-05

[3] https://www.gdc-uk.org/professionals/standards/team

cyntedd rhwng yr ystafell ddadheintio a'r ystafell driniaeth. Rhaid i'r prif ddeintydd gynnal y safonau gofynnol a bod yn atebol am arferion rheoli heintiau da fel bod diogelwch cleifion yn cael ei gynnal.

Mae effaith sylweddol y materion sy'n cael eu rhestru uchod yn golygu na ellid rhoi sicrwydd y byddai lles a diogelwch y cleifion yn cael eu cynnal. Mae AGIC yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a dylai'r prif ddeintydd fod yn ymwybodol fod AGIC yn ystyried a yw'r pryderon hyn yn cyfiawnhau atgyfeiriad.

### Nid yw'r person cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 14 (1) (b) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Safon 4 canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ynghylch sicrhau bod cofnodion deintyddol y cleifion sy'n cael eu cwblhau gan y practis yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Ni ellid rhoi sicrwydd i AGIC fod y prif ddeintydd yn gweithredu prosesau clinigol proffesiynol o ran cadw cofnodion. Mae hyn oherwydd:

- Roedd arferion cadw cofnodion yn wael.
- Nid oedd hanesion meddygol yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd yn gyson. Nid oedd system glir er mwyn eu diweddaru.
- Nid oedd cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu na sgrinio am ganser y geg yn cael ei gofnodi'n gyson.
- Nid oedd caniatâd gwybodus a pharhaus cleifion yn cael ei gofnodi.
- Mae angen i gofnodion archwilio ar gyfer ardaloedd y tu allan ac oddi mewn y geg fod yn fwy manwl, a chael eu cofnodi'n gyson.
- Roedd ansawdd radiograffau yn wael – fel yr oedd hefyd y broses gyfiawnhau ac adrodd.

Mae AGIC yn nodi yma fod y prif ddeintydd wedi cael ei atgoffa'n flaenorol o'i gyfrifoldeb a'i atebolrwydd i gynnal cofnodion cleifion yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gan iddo gael ei rybuddio am hyn ym mis Mehefin 2017 yn ystod arolygiad yn y chwaer-bractis. Felly mae'r canfyddiadau hyn yn annerbyniol.

### Nid yw'r person cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 14 (1) (d), 14 (2) a 14 (6) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008

ynghylch sicrhau bod dyfarniadau ac arferion clinigol cadarn a ellir eu cyfiawnhau yn cael eu gweithredu a'u cynnal.

Ni allai AGIC fod yn sicr fod barn glinigol broffesiynol briodol mewn perthynas â chynllunio a darparu triniaeth yn cael ei chynnal. Mae hyn oherwydd:

Gwnaethom gymryd hapsampl o bum cofnod cleifion ar bapur ac roedd tri o'r rhain yn codi pryderon ynghylch meysydd o farn ac arferion clinigol.

- Roedd un cofnod yn nodi bod dant nad oedd ei wreiddiau wedi eu llenwi’n llawn (fel y dangosir gan radiograff o’r tu fewn i’r geg) wedi'i goroni heb dynnu radiograff diweddar i ganfod a oedd unrhyw haint neu batholeg yn bresennol yn y gwreiddiau cyn darparu adferiad coron.

- Roedd un cofnod yn nodi bod dant blaen, a honnwyd nad oedd yn hanfodol, wedi cael ei adfer heb ymchwiliad pellach gyda radiograff neu brawf bywiogrwydd.

- Roedd un cofnod yn nodi bod gogilddant is wedi cael ei dynnu heb gymryd radiograff cyn-lawdriniaethol.

Rhaid i'r prif ddeintydd fod yn ymwybodol fod AGIC yn cadw'r hawl i ystyried cyfeirio'r lefel hon o bryder i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae effaith sylweddol yr uchod yn golygu nad oes modd sicrhau llesiant a diogelwch y cleifion.

Derbyniodd AGIC ymateb i'r materion uchod gan y darparwr cofrestredig ar 8 Rhagfyr 2017 a ddarparodd sicrwydd digonol, ac roedd camau gweithredu yn cael neu wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn a gwneud y gwelliannau gofynnol.

Sylwer, mae'r prif ddeintydd hefyd wedi hysbysu AGIC o’r bwriad canlynol: “Rydym yn symud ein cleifion o'r safle presennol erbyn 31 Mawrth 2018.”

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Practis deintyddol i gleifion preifat yn unig yw Newport Smile Centre.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd ac un aelod o staff sy'n hylenydd a nyrs ddeintyddol gofrestredig ac sydd hefyd yn gweithio fel derbynnydd a rheolwr practis. Mae yna hefyd un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant (er bod y swyddogaeth hon yn cael ei darparu gan un o ddwy nyrs ddeintyddol sydd ar gael). Ar adeg yr arolygiad, roedd y grŵp staff bach hwn hefyd yn darparu'r holl ddyletswyddau glanhau yn y practis.

Mae AGIC yn nodi yma fod y lefelau staffio yn cyflwyno heriau sylweddol i'r practis. Rydym wedi trafod hyn ar wahân yn ysgrifenedig gyda'r deintydd.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Yn gyffredinol, nid oeddem yn gallu cael sicrwydd fod y cleifion yn cael profiad claf o ansawdd.

Mae hyn oherwydd i ni ganfod bod yr adborth y gwnaethom ei dderbyn gan gleifion yn gymysg ac nad oedd safbwyntiau cleifion yn cael eu ceisio'n rheolaidd.

Bu angen i AGIC gyhoeddi hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio a llythyr sicrwydd ar unwaith ac mae hefyd wedi nodi nifer o feysydd gwella, a oedd yn nodi materion yn ymwneud â diogelwch cleifion.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Derbyniwyd cyfanswm o ddeg holiadur wedi eu cwblhau gennym; derbyniwyd y mwyafrif o holiaduron gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers amser hir (y rhai a oedd wedi bod yn gleifion yno ers dros ddwy flynedd). At ei gilydd, roedd adborth cleifion a oedd yn cael ei ddarparu yn yr holiaduron yn gymysg. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Rwy'n eithaf hapus gyda'r gwasanaeth rwy'n ei dderbyn"*

*"Hapus gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu"*

Gofynnwyd i gleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Ymatebodd y cleifion fel a ganlyn:

*"Mae'r practis yn canslo gormod o apwyntiadau"*

*"Practis yn aml yn rhedeg yn hwyr"*

*"Amseroedd aros byrrach ar gyfer apwyntiadau – mae'n debyg nad yw'n ymarferol"*

### Cadw'n iach

Dywedodd pob un o'r cleifion oedd wedi cwblhau holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw'u ceg a'u dannedd yn iach.

Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Mae angen i wybodaeth hyrwyddo iechyd deintyddol ymroddedig gael ei wneud ar gael i gleifion yn yr ardaloedd aros, gan i ni ganfod bod diffyg deunydd o'r fath ar gael.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael ar gyfer cleifion yn y mannau aros.

## Gofal ag urddas

Heb eithriad, roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Dywedodd un claf wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais. Gwnaethom arsylwi ar yr ymagwedd gyfeillgar a chroesawgar yr oedd staff yn ei dangos tuag at gleifion.

Y gofod oedd ar gael i staff gael sgyrsiau i ffwrdd oddi wrth gleifion eraill, os oedd angen er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion, oedd y gegin/swyddfa’r staff. Nid oedd yr ardal hon yn briodol i'r diben hwn gan ei bod mewn cyflwr gwael – roedd lleithder amlwg ac nid oedd yn ddigon glân. Mae'r angen i waith gweddilliol gael ei wneud yn yr ardal hon o'r practis wedi'i nodi mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

Gwelsom fod y drws i'r ystafell driniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) yn cael ei gadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a wnaeth gwblhau holiadur wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cymryd rhan gymaint ag y dymunai mewn unrhyw benderfyniadau oedd yn cael eu gwneud ynglŷn â'i driniaeth a'i fod wedi derbyn gwybodaeth glir ynglŷn â'r opsiynau triniaeth oedd ar gael.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion oedd wedi derbyn triniaeth yn y practis yn yr holiaduron fod cost eu triniaeth bob amser yn cael ei gwneud yn glir iddynt. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion hyn wrthym hefyd nad oeddent yn deall sut oedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo. Gwelsom fod rhestr brisiau cleifion preifat ar gael yn yr ardal aros, fel y gellid rhoi gwybod i gleifion am gostau.

Gwelsom fod manylion y deintyddion sy’n ymarfer yn y practis ac oriau agor y practis yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad. Cynghorwyd y practis i gael gwared ar yr hen arwydd practis ar flaen yr adeilad gan nad yw hwn bellach yn berthnasol. Rhoddodd y prif ddeintydd sicrwydd y byddai hyn yn cael ei wneud yn brydlon.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol. Roedd y polisi cwynion oedd yn cael ei arddangos yn nodi bod fersiwn ar gael yn Gymraeg ar gais.

Mae gan y practis wefan a chanfuom nad yw hon yn cael ei chynnal yn unol â chanllawiau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar hysbysebu moesegol. Roedd hyn oherwydd bod y wefan yn cynnwys manylion am Newport Smiles Centre a'r chwaer-bractis, gan beri dryswch, e.e. nid oedd yn glir fod Newport Smiles Centre ar gyfer cleifion preifat yn unig. Nid oedd y wefan yn gyfoes, gan ei bod yn nodi bod staff a oedd wedi gadael eu swyddi yn dal i weithio yn y practis. Roedd yn anodd dod o hyd i'r ddolen i'r polisi a'r weithdrefn gwyno ac mae angen i hyn fod yn fwy tryloyw. Nid oedd gan y wefan ddyddiad pan gafodd ei diweddaru ddiwethaf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis adolygu a diweddaru ei gwefan yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu moesegol.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ymdrechu i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Fodd bynnag, roedd adborth gan gleifion yn y maes hwn yn gymysg (gweler tudalen 11). Mae'r practis yn rhedeg ar sail rhan amser ac yn cyfeirio cleifion at y chwaer-bractis pan fo angen. Dylai'r deintydd adolygu sylwadau cleifion yn y maes hwn, i weld sut y gellir gwneud gwelliannau i ddarparu gofal mwy amserol.

Dywedodd ychydig dros hanner y cleifion a wnaeth gwblhau'r holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd ganddynt broblem ddeintyddol frys. Gwelsom fod manylion rhif cyswllt argyfwng y GIG yn cael eu harddangos yn allanol yn ffenestr flaen y practis. Fodd bynnag, gan fod hwn yn bractis preifat yn unig, dylai'r deintydd

adolygu'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau ar gyfer cleifion preifat.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r deintydd adolygu adborth gan gleifion i fynd i'r afael ag argaeledd gofal amserol.

Dylai'r deintydd adolygu'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau ar gyfer cleifion preifat.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu sicrhau bod cynllunio triniaeth ac opsiynau'n cael eu trafod gyda chleifion. Mae hyn oherwydd bod y gwaith o gadw cofnodion cleifion yn wael a chodwyd pryderon ynglŷn â chynllunio triniaeth ac opsiynau. Nid oeddem yn gallu bod yn sicr fod cleifion yn gallu cael gafael ar wybodaeth ynglŷn â sut i ofalu am eu dannedd/deintgig ar ôl a rhwng apwyntiadau. Ymdriniwyd â'r materion hyn drwy'r hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio a chawsom ymateb boddhaol ar 8 Rhagfyr 2017.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Mae mynediad i'r practis i gleifion sydd ag anawsterau symudedd yn gyfyngedig ac i'r rhai sydd angen cadair olwyn nid yw ar gael gan fod nifer o risiau serth i gael mynediad iddo. Dywedodd y staff y byddent yn cyfeirio cleifion at ddeintyddfa arall, lle'r oedd mynediad at gyfleusterau ar gael. Mae'r toiledau neillryw i gleifion/staff wedi'u lleoli ar lawr gwaelod yr eiddo.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd ychydig dros hanner y cleifion a wnaeth gwblhau holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i godi pryder neu gŵyn am y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn yn y practis deintyddol pe bai angen. Roedd gweithdrefn gwyno ar gyfer gofal deintyddol preifat ar gael fel sy'n ofynnol yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008 ac roedd hon yn cael ei harddangos yn yr ardal aros i gleifion ar ddiwrnod yr arolygiad. Dylai'r deintydd ystyried sut y gellir gwella ymwybyddiaeth cleifion o'r broses gwynion.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gwynion cleifion wedi'u derbyn hyd yn hyn. Canfuom nad oedd ffeil gwynion na fformat cwynion i gofnodi unrhyw gwynion a dderbyniwyd ar waith. Mae angen ffeil a fformat cwynion i nodi'r dyddiad, manylion unrhyw gŵyn, yr ymateb, y canlyniad a'r dyddiad cau, fel bod dull cyson o gadw cofnodion yn barod i'w ddefnyddio pan fo angen ar gyfer pob cwyn. Dylid cynnal archwiliad o gwynion yn achlysurol fel y gellir gweithredu gwersi a ddysgwyd. Mae hefyd angen cofnod pryderon ar wahân i gofnodi pryderon anffurfiol yn ganolog, i alluogi i unrhyw themâu cyffredin gael eu nodi. Dywedwyd wrthym mai'r unigolion a enwebwyd ar gyfer ymdrin â chwynion oedd y prif ddeintydd a'r hylenydd; gwnaethom nodi bod y diwethaf wedi derbyn hyfforddiant i'w gefnogi wrth gyflawni'r swyddogaeth hon.

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod a yw'r practis deintyddol yn gofyn am eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yno – er enghraifft, trwy holiaduron cleifion. Mae angen i'r practis ddatblygu system ffurfiol a rheolaidd ar gyfer ceisio adborth cleifion fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu. Dylai'r practis archwilio'r data a chymryd camau priodol lle bo hynny'n berthnasol. Dylai'r practis hefyd ddangos dadansoddiad o'r canlyniadau adborth yn y man aros, gan ddangos i gleifion y gweithredir ar adborth ac fe'i defnyddir i ddylanwadu ar newidiadau i'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis adolygu a datblygu ei brosesau ar gyfer ymdrin â cwynion a phryderon a chadw cofnodion.

Rhaid i'r practis ddatblygu system i geisio barn cleifion yn rheolaidd, fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, nid oeddem yn gallu cael ein sicrhau bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Mae hyn oherwydd canfuom dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r rheoliadau a'r safonau ym mhob maes. Roedd angen i AGIC gyhoeddi hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio a llythyr sicrwydd ar unwaith ac mae hefyd wedi nodi nifer o feysydd gwella.

### Gofal diogel

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch materion o ddiffyg cydymffurfio dan ein proses diffyg cydymffurfio. Mae manylion y materion o ddiffyg cydymffurfio yn cael eu nodi ar dudalennau 7 i 11. Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch diweddariadau hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Mae hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn syth yn dilyn yr arolygiad yn gofyn bod camau adfer brys yn cael eu cymryd. Mae manylion y gwelliant uniongyrchol y gwnaethom ei nodi yn cael eu darparu yn Appendix B.

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd taflenni Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd[4] (COSHH) a thaflenni data diogelwch yn cael eu cadw ar gyfer sylweddau yn ogystal ag asesiadau risg. Fodd bynnag, roedd y trefniadau ar gyfer storio deunyddiau COSHH yn annigonol gan nad oedd eitemau'n cael eu storio'n ddiogel. Nid oedd y

[4] http://www.hse.gov.uk/cosh/basics.htm

mynediad i gegin y staff / ardal y swyddfa wedi'i gyfyngu i gleifion. Nodwyd gennym fod cynhyrchion glanhau COSHH a jariau storio amalgam a mercwri yn cael eu cadw yn yr ardal hon ac felly nid oeddent yn cael eu cadw a'u storio'n ddiogel er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Rhaid sicrhau bod mynediad i'r ystafell ddadheintio'n cael ei wneud yn fwy diogel er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Mae angen adolygu'r broses cadw cofnodion ar gyfer y gwiriadau dyddiol ar y cywasgydd.

Gwelsom fod y profion dyfeisiau cludadwy trydanol ar gyfer eitemau trydanol bach yn gyfredol a bod tystysgrif gwasanaeth ddiweddar ar gyfer y boeler nwy ar waith. Fodd bynnag, nid oedd tystysgrif gosodiad gwifrau trydanol bob pum mlynedd ar gael ar gyfer yr eiddo. Roedd hyn oherwydd bod y peiriannydd gwasanaeth ond yn barod i ddarparu tystysgrif blwyddyn oherwydd oedran y trydanwaith ar yr eiddo. Roedd toiled deuryw i'w ddefnyddio gan gleifion a staff ar lawr gwaelod yr adeilad. Roedd arwyddion clir at y cyfleusterau hyn ac roeddent i'w gweld yn lân ac roedd bin gwastraff glanweithiol ar waith.

Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd contract cynnal offer tân ar waith ac roedd arwyddion tân yn amlwg. Fodd bynnag, rhaid i'r asesiad risg tân gael ei ddiweddaru gan inni nodi ar ddiwrnod yr arolygiad fod drws yr allanfa dân wedi'i gloi a bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r trefniadau ar gyfer storio ocsigen. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r deintydd adolygu'r asesiad risg amgylcheddol, gan nodi camau gweddilliol yng ngolau'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn, e.e. storio eitemau fel y pecyn dadebru, meddyginiaeth mewn argyfwng ac ocsigen mewn modd sy'n ddiogel, priodol a hygyrch.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Er mwyn sicrhau diogelwch cleifion, rhaid gwneud mynediad i'r gegin/swyddfa lle mae eitemau COSHH a gwastraff peryglus yn cael eu storio yn ddiogel.

Er mwyn sicrhau diogelwch cleifion, rhaid gwneud mynediad i'r ystafell ddadheintio'n fwy diogel.

Mae angen tystysgrif wifrau trydanol bob pum mlynedd. Dylid anfon copi o hwn at AGIC.

Rhaid i'r deintydd adolygu a diweddaru'r asesiad risg tân a hysbysu AGIC o'r camau a gymerwyd.

Mae'n ofynnol i'r deintydd adolygu'r asesiad risg amgylcheddol, gan nodi camau

gweddilliol a gymerwyd sy'n sicrhau bod pob risg yn cael ei hystyried ar gyfer diogelwch cleifion.

## Atal a rheoli heintiau

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd mwyafrif y cleifion a wnaeth gwblhau holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd ardal aros ddymunol a glân i gleifion ac roedd ystafell driniaeth y practis hefyd yn ymddangos yn lân ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Fodd bynnag, ar ôl archwiliad agosach, canfuom fod angen i’r ystafell driniaeth gael ei glanhau'n drylwyr mewn rhai mannau ac nid oedd ardaloedd eraill yn y practis, nad oeddent yn cael eu defnyddio gan gleifion, yn ddigon glân. Mae'r materion hyn yn cael eu nodi o fewn yr hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio (gweler tudalennau 7 i 11).

Roedd problemau’n cynnwys y canlynol. Argymhellodd yr arolygwyr y dylai'r gwaith labordy sy'n digwydd yn ardal y gegin ddod i ben ar unwaith. Roedd yr ardal gegin ei hun yn llaith gyda llwydni gwyrdd/du ar y wal ynghyd â llwch trwchus gweledol ar arwynebau ac eitemau wedi'u storio. O dan hwn ar silff, roedd bin a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaredu capsiwlau amalgam oedd wedi cael eu defnyddio. Roedd peiriant cannu dannedd yn cael ei storio yng nghornel yr ystafell hon ac roedd purydd dŵr wedi'i leoli wrth ymyl y peiriant cynhyrchu gardiau ceg ynghyd â phlastr, powlenni cymysgu a sbatwlâu yn barod i arllwys argraffiadau gan gleifion. Nid oedd gardiau ceg/sblintiau plastig yn cael eu cynhyrchu gan labordy deintyddol cofrestredig fel sy'n ofynnol gan yr awdurdod dyfeisiau meddygol.

Felly nid oeddem yn gallu bod yn sicr fod trefniadau digonol ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd a ellir eu hatal yn y practis deintyddol. Roedd polisi rheoli heintiau ac amserlen lanhau ddyddiol ar waith, ond ni lynir atynt. Gwelsom fod statws gwirio brechiadau imiwneiddio ar gyfer aelodau'r staff yn gyfredol. Mae'n ofynnol i'r practis gynnal archwiliad rheoli heintiau, fel sy'n cael ei argymell gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05).

Mae'r meysydd i'w gwella yn y maes hwn wedi'u cynnwys yn yr hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio ac felly ni fyddant yn cael eu hailadrodd fel gwelliannau yma. Cyfeiriwch at dudalennau 7 i 11 o'r adroddiad hwn.

Roedd y dystiolaeth ganlynol ar gael i nodi bod rhai mesurau atal a rheoli heintiau ar waith:

- Yn ddiweddar, roedd y deintydd wedi trefnu ystafell ddynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Mae hyn yn dangos bod ganddo fwriadau i wneud gwelliannau.
- Roedd cyfarpar amddiffyn personol fel menig, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid untro ar gael. Rhaid defnyddio'r rhain yn gyson yn ôl yr angen.
- Roedd sinc benodol i olchi dwylo.
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offer mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg. Roedd glanhawr uwchsonig ar gael, ond nid oedd yn cael ei ddefnyddio. Mae'r deintydd yn cael ei gynghori i ddefnyddio'r cyfleuster hwn a chynnal cofnodion priodol yn unol ag arferion da a diogel.
- Roedd offer deintyddol yn cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar y pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid defnyddio'r offer.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel. Cafodd y deintydd ei gynghori i ystyried y defnydd o ddyfeisiadau ailweinio yn unol ag arferion da a diogel.

Dylai'r holl staff perthnasol ymgymryd â phum awr o hyfforddiant ddadheintio bob pum mlynedd; mae angen i'r practis adolygu statws yr hyfforddiant hwn gan nad oedd digon o dystiolaeth ar gael.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r prif ddeintydd gadarnhau bod yr arfer o weithgynhyrchu gardiau ceg/sblintiau plastig wedi dod i ben ar y safle.

Rhaid i'r practis drefnu hyfforddiant dadheintio / rheoli heintiau cyfredol ar gyfer staff.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod rhai o'r tîm staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol. Fodd bynnag, roedd angen i'r

deintydd adnewyddu ei hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd (gweler Atodiad B). Roedd cyffuriau brys yn cael eu storio mewn man lle maent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd yr offer cyffuriau ac offer dadebru brys yn cael eu storio mewn cabinet wedi'i gloi yn ardal y cyntedd. Cynghorwyd y deintydd i ystyried pa mor hygyrch oedd hwn, h.y. ystyried defnyddio clo mwy sylweddol ar gyfer diogelwch. Fe’n hysbyswyd hefyd mai'r nyrs ddeintyddol (hyfforddai) oedd deilydd yr allwedd ar gyfer y clo i'r cabinet hwn. Gwnaethom gynghori y gellid cael clo â chod fel nad oes unrhyw broblem gyda mynediad ag allwedd. Cytunodd y deintydd y byddai hyn yn fwy priodol o safbwynt mynediad a diogelwch a chytunodd i drefnu i’r clo gael ei newid. Roedd yr ocsigen yn cael ei storio ar wahân ac mae angen trefnu storio ac arwyddion priodol ar gyfer yr offer hyn.

Rydym yn argymell bod y system sydd ar waith i wirio'r offer dadebru a chyffuriau brys yn cael ei hadolygu gan nad yw'r siart gwirio dyddiol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd (taflenni rhydd) yn ddigon manwl na chadarn. Dylai fod fformat ar wahân ar gyfer gwirio offer dadebru. Dylid cynnal gwiriadau ar y cyffuriau brys yn wythnosol, gyda rhestr o gyffuriau a dyddiadau terfyn yn cael ei chynnal.

Dywedwyd wrthym mai'r swyddog cymorth cyntaf dynodedig a hyfforddedig ar gyfer y practis yw'r deintydd. Ni welsom y ddogfen hyfforddiant cymorth cyntaf ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r deintydd yn cael ei atgoffa ynglŷn â'i gyfrifoldeb i sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei adnewyddu ar yr adegau gofynnol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis wneud trefniadau storio diogel a hygyrch ar gyfer yr ocsigen, a chadw arwyddion a manylion o ble mae’n cael ei storio yn y manylion meddyginiaeth.

Rhaid adolygu'r system a'r fformat cofnodi sydd ar waith i wirio'r offer dadebru, y cywasgydd a chyffuriau brys.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed a allai fod mewn perygl. Mae hyn oherwydd bod polisïau amddiffyn priodol ar waith, gyda rhifau cyswllt lleol ar gyfer asiantaethau diogelu.

Roedd hyfforddiant diogelu oedolion agored i niwed a phlant yn cael ei ddarparu ar gyfer staff perthnasol. Roedd trefniadau ar waith i staff leisio

unrhyw bryderon a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafell driniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom nodi bod yr ystafell driniaeth wedi'i chynllunio a'i threfnu i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon. Fodd bynnag, roedd angen i’r ardal hon gael ei glanhau’n drylwyr (gweler tudalennau 7 i 11).

Gwelsom fod yr amgylcheddau wedi cael eu cynllunio a'u trefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio yn hen fodel. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriant pelydr-X hwn wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd i helpu i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd y cyfarpar datblygu ar gyfer pelydrau-X wedi'i leoli yn y gegin / ystafell y staff, ac argymhellwyd y gellid ei ail-leoli i ardal fwy priodol – cytunodd y deintydd â hyn. Canfuom fod staff a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith o dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[5]

Gwelsom fod archwiliad sicrhau ansawdd o ansawdd delweddau radiograffig wedi'i gynnal ar 15 Tachwedd 2017. Fodd bynnag, mae angen i amlder a chyfiawnhad radiograffau fod yn unol â chanllawiau. Yn dilyn canfyddiadau ein sampl o gofnodion cleifion, rydym yn argymell bod y deintydd yn ailadrodd yr archwiliad radiograffig erbyn 15 Chwefror 2018, i sicrhau bod gwelliant yn ansawdd ac amlder pelydrau-X yn cael ei gyflawni a'i gynnal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen cynnal archwiliad radiograffig erbyn 15 Chwefror 2018 i nodi bod gwelliant yn cael ei gyflawni a'i gynnal yn y maes hwn.

## Gofal effeithiol

[5] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Nid oeddem yn gallu cael ein sicrhau bod gofal diogel a chlinigol effeithiol yn cael ei ddarparu i gleifion ac mae angen gwneud ymdrech sylweddol i fynd i'r afael â'r holl feysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn.

Mae'r deintydd wedi bod yn gydweithredol gyda'r broses arolygu ac wedi dangos ei fod yn awyddus i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Bydd AGIC yn cynnal arolygiad dilynol, i sicrhau bod cynnydd wedi'i wneud. Gwelsom fod gan y practis fwriad i ymgymryd ag archwiliadau perthnasol, gyda rhai archwiliadau diweddar wedi cael eu cynnal.

Fodd bynnag, mae angen archwiliad rheoli heintiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, mae angen ail archwiliad o radiograffau, ac mae angen i archwiliadau cofnodion cleifion ddangos bod cynnydd wedi cael ei gyflawni ac yn cael ei gynnal yn y meysydd hyn. Mae'r gwelliannau hyn wedi derbyn sylw drwy'r hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio (gweler tudalennau 7–11) ac felly nad ydynt yn cael eu hailadrodd yma.

## Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedodd y deintydd ei fod yn trefnu i broses adolygu ansawdd gan gymheiriaid gael ei roi ar waith, fel y gall adolygiad o arferion a phrosesau gael ei drefnu o bryd i'w gilydd i hyrwyddo gwelliant ac arfer da. Mae AGIC yn mynnu bod y deintydd yn darparu diweddariad unwaith y bydd y broses hon wedi'i sefydlu. Mae'r deintydd hefyd yn cael ei gynghori y byddai ymgysylltu ag Archwiliad Clinigol ac Adolygiad Cymheiriaid Deoniaeth Cymru (CAPRO)[6] yn fuddiol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid ac archwiliadau trylwyr rheolaidd, fel ffordd o gynyddu dysgu, hyrwyddo arfer gorau a helpu i fonitro ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu. Rhaid i'r deintydd ddiweddaru AGIC ynglŷn â chynnydd gyda'r trefniadau adolygu gan gymheiriaid, gan ddangos pryd mae'r rhain wedi dechrau a'r

[6] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/carro

amlder a fwriadwyd. Rhaid i gofnodion yr adolygiadau hyn gael eu cadw at ddibenion arolygu.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd polisi diogelu data ar waith. Fodd bynnag, nid oedd mynediad i ardal y gegin / swyddfa’r staff wedi'i ddiogelu rhag mynediad i gleifion. Ar ben hynny, roedd cabinet mawr na ellir ei gloi gyda ffeiliau cyfrinachol cleifion yn cael ei storio yn yr ardal hon. Felly, nid oedd data cleifion yn cael ei storio'n ddiogel. Dywedodd y deintydd fod ffeiliau electronig yn cael eu cadw'n rheolaidd, trwy ddull cof bach. Cafodd y deintydd ei hysbysu y dylai gymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch y wybodaeth wrth gefn a dywedodd fod bwriad i wneud trefniadau cadw wrth gefn electronig yn fwy diogel. Roedd mynediad i'r sgrin gyfrifiadur yn y dderbynfa yn ddiogel ac yn gyfrinachol. Mae angen ystyried mynediad i'r sgrin gyfrifiadur sy'n cael ei chadw yn ardal y gegin / swyddfa'r staff o fewn yr asesiad risg amgylcheddol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid sicrhau bod y trefniadau diogelu data ar gyfer cofnodion papur cleifion yn ddiogel.

## Cadw cofnodion

Mae'r meysydd i'w gwella yn y maes hwn wedi'u cynnwys yn yr hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio ac felly ni fyddant yn cael eu hailadrodd yma. Cyfeiriwch at dudalennau 7 i 11 yr adroddiad hwn.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.*

Ar y cyfan, canfuom fod angen dybryd i adolygu'r prosesau rheolaeth ac arweinyddiaeth yn y practis hwn.

Y rheswm am hyn yw y canfuom fod angen cryfhau rheolaeth ac arweinyddiaeth y practis. Mae angen adolygu ac egluro rolau a chyfrifoldebau. Mae hyn yn cael ei ddangos gan nifer y meysydd gwella sy'n cael eu nodi yn yr adroddiad hwn. Rhaid i'r deintydd flaenoriaethu a chael perchenogaeth ar hyn.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Oherwydd y nifer o feysydd o ddiffyg cydymffurfio, sicrwydd ar unwaith a gwelliant a gafodd eu hadrodd yn ystod yr arolygiad hwn, nid oedd AGIC yn cael ei sicrhau bod safon yr arweinyddiaeth ac ansawdd y rheolaeth yn y practis hwn yn ddigonol i sicrhau a chynnal diogelwch cleifion.

Nid oedd digon o dystiolaeth o archwiliadau clinigol trylwyr yn cael eu cynnal, e.e. mae angen cynnal archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ac archwiliad radiograffig. Nododd archwiliad cofnodion cleifion diweddar feysydd i'w gwella, ond roedd yr archwiliad hwn yn hwyr. Rhaid i'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid ac archwiliadau trylwyr rheolaidd, fel ffordd o gynyddu dysgu, hyrwyddo arfer gorau a helpu i fonitro ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu. Mae'r gwelliant hwn wedi'i gynnwys mewn rhan arall o'r adroddiad hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r deintydd adolygu'r pryderon sylweddol ynghylch safon y llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd yn y practis hwn. Rhaid hysbysu AGIC yn ysgrifenedig o ba fesurau a gymerwyd i wella ansawdd y rheolaeth ac

arweinyddiaeth, er mwyn sicrhau a chynnal diogelwch cleifion.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwelsom fod tystysgrifau yn dangos tystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd a argymhellwyd yn fawr gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Fodd bynnag, roedd bylchau mewn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd a hyfforddiant dadheintio/rheoli heintiau fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Dywedodd staff wrthym fod gwaith tîm da ar draws tîm y practis yn gyffredinol ac, ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y tîm staff cyfan yn gweithio'n dda ac yn agored gyda'r broses arolygu. Fodd bynnag, canfuom y gallai swyddogaethau a chyfrifoldebau staff gael eu diffinio a'u hegluro'n well. Roedd gan y practis dîm staff bach ac, ym marn yr arolygwyr, dîm staff oedd yn cael ei ymestyn ormod. Gwnaethom drafod hyn gyda'r deintydd ar ddiwrnod yr arolygiad. Rydym hefyd wedi ysgrifennu at y deintydd ar wahân mewn perthynas â'i reolaeth o gyfrifoldebau dirprwyedig, i'w alluogi i ystyried y mater hwn wrth symud ymlaen.

Roedd y dogfennau'n anhrefnus ac roedd angen rhoi gwaith cadw tŷ a phrosesau gwell ar waith. Mae angen i'r deintydd gynnal adolygiad system gyfan o brosesau cadw cofnodion. Er enghraifft, roedd angen i’r gwaith o gadw cofnodion mewn perthynas â pholisïau, ffeiliau staff, meddyginiaeth / y pecyn dadebru a gwiriadau ar y cywasgydd gael ei drefnu'n well a/neu fod yn fwy manwl.

Roedd y deintydd a'r staff nyrsio cofrestredig wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ymarfer ac yn meddu ar yswiriant indemniad. Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B i amddiffyn eu hunain a chleifion rhag heintiau.

Nid oedd y cyfleusterau staff yn briodol ar gyfer anghenion staff. Nid oedd ardal y gegin/swyddfa sy'n cael ei defnyddio yn ddigon glân ac roedd lleithder yn amlwg. Yr ardal hon hefyd oedd yr unig le ar gael i siarad â chleifion yn breifat.

Mae'r gofyniad am waith gweddilliol yn yr ardal hon wedi'i gynnwys yn yr hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio ac felly ni fydd yn cael ei ailadrodd yma fel gwelliant. Cyfeiriwch at dudalennau 7 i 11 yr adroddiad hwn.

Roedd y deintydd sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwelsom fod ei dystysgrif gofrestru gan AGIC yn cael ei harddangos yn amlwg fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogaeth unrhyw aelodau newydd o staff yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd gwiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol i'r deintydd yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Yr hyn y mae angen ei wella

Roedd y dogfennau'n anhrefnus ac roedd angen rhoi gwaith cadw tŷ a phrosesau gwell ar waith. Rhaid i'r deintydd gynnal adolygiad system gyfan o brosesau cadw cofnodion.

# 4. Beth nesaf?

Lle’r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Newport Smile Centre

## Dyddiad yr arolygiad: 23 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Canfyddiad<br><br>Canfuom fod hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd y prif ddeintydd wedi dod i ben ac felly roedd angen iddo gael ei ddiweddaru yn unol â'r rheoliadau.<br><br>Yr hyn y mae angen ei wella<br><br>Mae'n ofynnol i'r prif ddeintydd hysbysu AGIC pryd bydd hyfforddiant adfywio cardio- | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (b)<br><br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Safon 1.5.3 | Rydym wedi trefnu i'r prif ddeintydd, Dr Amrish Gupta, fynychu hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd ar 7 Rhagfyr 2017 gyda Lubas Training. Mae'r dystysgrif wedi cael ei hanfon at AGIC. | Dr Amrish Gupta | Wedi'i gyflawni |

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| pwlmonaidd yn cael ei ddiweddaru yn unol â'r rheoliadau. Dylid anfon copi o'r dystysgrif hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd at AGIC fel tystiolaeth. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:Dr Amrish Gupta**

**Enw (llythrennau bras):Dr Amrish Gupta**

**Swydd:** Prif ddeintydd

**Dyddiad: 03/12/2017**

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Newport Smile Centre

## Dyddiad yr arolygiad: 23 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael ar gyfer cleifion yn y mannau aros. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (a)<br><br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol | Rydym wedi cael taflenni gwybodaeth cleifion gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain ac maent yn cael eu harddangos yn y dderbynfa. | Dr Amrish Gupta | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Cyffredinol – Safon 1.4.2 | | | |
| Mae angen i'r practis adolygu a diweddaru ei wefan yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu moesegol. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar hysbysebu moesegol | Rydym wedi cyfarwyddo ein tîm TG i ddiweddaru'r wefan a bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn 31 Ionawr 2018. | Dr Amrish Gupta | 31/1/2018 |
| Dylai'r deintydd adolygu adborth gan gleifion i fynd i'r afael ag argaeledd gofal amserol.<br><br>Dylai'r deintydd adolygu'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau ar gyfer cleifion preifat. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (a) (b) | Rydym yn symud ein cleifion o'r safle presennol erbyn 31 Mawrth 2018. Rydym wedi bwriadu trosglwyddo ein cleifion i bractis arall a bydd y practis hwn yn cynnal arolwg adborth gan gleifion.<br><br>Byddwn yn cysylltu â'r pwyllgor deintyddol lleol i drefnu rota y tu allan i oriau ar gyfer cleifion preifat. | Dr Amrish Gupta | 31/3/2018 |
| Rhaid i'r practis adolygu a datblygu ei brosesau ar gyfer ymdrin â cwynion a phryderon a chadw cofnodion. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Rydym yn symud ein cleifion o'r safle presennol erbyn 31 Mawrth 2018.<br><br>Rydym wedi gwneud cofnod ar wahân o bryderon a chwynion cleifion. Yn | Dr Amrish Gupta | Wedi'i gyflawni |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 2008<br><br>15 (3) | ogystal, rydym wedi diweddaru ein protocol i ddelio ag unrhyw bryderon/cwynion yn unol â "Gweithio i Wella". | | |
| Rhaid i'r practis ddatblygu system i geisio barn cleifion yn rheolaidd, fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (2)<br><br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Safon 2.1 | Byddwn yn cynnal arolwg boddhad cleifion yn flynyddol ac yn cymryd camau gweithredu o ganlyniad i wella ein darpariaeth gofal. | Dr Amrish Gupta | 30/4/2018 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Er mwyn sicrhau diogelwch cleifion, rhaid gwneud mynediad i'r gegin/swyddfa lle mae eitemau COSHH a gwastraff peryglus yn cael eu storio yn ddiogel. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | Rydym wedi symud yr holl eitemau COSHH o ardal y gegin/swyddfa i gabinet wedi'i gloi. | Dr Amrish Gupta | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 14 (1) (d) | | | |
| Er mwyn sicrhau diogelwch cleifion, rhaid gwneud mynediad i'r ystafell ddadheintio'n fwy diogel. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (d) | Mae arwydd ar ddrws yr ystafell ddadheintio gan nodi ei bod yn ardal breifat i staff yn unig. | Dr Amrish Gupta | Wedi'i gyflawni |
| Mae angen tystysgrif wifrau trydanol bob pum mlynedd. Dylid anfon copi o hwn at AGIC. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (d) | Rydym yn symud ein cleifion o'r safle presennol erbyn 31 Mawrth 2018. Mae'r dystysgrif gyfredol yn ddilys tan ddiwedd 2018. | Dr Amrish Gupta | Wedi'i gyflawni |
| Rhaid i'r deintydd adolygu a diweddaru'r asesiad risg tân a hysbysu AGIC o'r camau a gymerwyd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (d) | Rydym yn symud ein cleifion o'r safle presennol erbyn 31 Mawrth 2018.<br><br>Rydym wedi adolygu ein hasesiad risg tân ac wedi hysbysu AGIC ynglŷn â newidiadau sydd wedi cael eu gwneud. | Dr Amrish Gupta | Wedi'i gyflawni |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae'n ofynnol i'r deintydd adolygu'r asesiad risg amgylcheddol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (d) | Gwnaethom adolygu'r asesiad risg amgylcheddol ac mae newidiadau wedi cael eu gwneud i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n ddiogel. | Dr Amrish Gupta | Wedi'i gyflawni |
| Rhaid i'r prif ddeintydd gadarnhau bod yr arfer o weithgynhyrchu gardiau ceg/sblintiau plastig wedi dod i ben ar y safle. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (b) | Rydym wedi rhoi'r gorau i weithgynhyrchu gardiau ceg/sblintiau yn ein hadeiladau a defnyddio labordy cofrestredig yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd. | Dr Amrish Gupta | Wedi'i gyflawni |
| Rhaid i'r practis drefnu hyfforddiant dadheintio/rheoli heintiau cyfredol ar gyfer staff. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (b)<br><br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru | Mae ein tîm wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein o fwy na chwe awr ar ddadheintio/rheoli heintiau. Byddwn hefyd yn mynychu hyfforddiant rheoli heintiau Deoniaeth Cymru pan fyddant yn cynnig dyddiadau gan ei fod yn cael ei ddiweddaru yn unol â chanllawiau datblygiad proffesiynol parhaus newydd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. | Dr Amrish Gupta | Cwblhawyd ac yn barhaus |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 01-05 – 1.26–2.4o | | | |
| Mae angen i'r practis wneud trefniadau storio diogel a hygyrch ar gyfer yr ocsigen, a chadw arwyddion a manylion o ble mae'n cael ei storio yn y manylion meddyginiaeth. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (d)<br>Rheoliadau Cynwysyddion Gwasgedd 1996 | Rydym wedi symud yr ocsigen i leoliad haws mynd ato a mwy diogel o fewn yr ystafell driniaeth. Rydym hefyd wedi gosod arwyddion y tu allan i'r cwpwrdd. Yn yr adeilad newydd, mae gennym ocsigen mewn cwpwrdd dan glo wedi'i farcio o fewn yr ystafell driniaeth. | Dr Amrish Gupta | Wedi'i gyflawni |
| Rhaid adolygu'r system a'r fformat cofnodi sydd ar waith i wirio'r offer dadebru, y cyffuriau brys a'r cywasgydd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (d)<br>Llyfr Fformiwlâu Ymarferwyr Deintyddol | Rydym wedi gwneud fformat cofnodi ar wahân ar gyfer offer dadebru a chyffuriau brys. Hefyd, mae fformat newydd o log cywasgydd gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain wedi cael ei roi ar waith. | Dr Amrish Gupta | Wedi'i gyflawni |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen cynnal archwiliad radiograffig erbyn 15 Chwefror 2018 i nodi bod gwelliant yn cael ei gyflawni a'i gynnal yn y maes hwn. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (d)<br>Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | Rydym yn cynnal archwiliad radiograffig ar hyn o bryd a bydd canlyniadau'r archwiliad yn cael eu hanfon at AGIC. | Dr Amrish Gupta | 15/2/2018 |
| Rhaid i'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid ac archwiliadau trylwyr rheolaidd, fel ffordd o gynyddu dysgu, hyrwyddo arfer gorau a helpu i fonitro ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu. Rhaid i'r deintydd ddiweddaru AGIC ar gynnydd gyda'r trefniadau adolygu gan gymheiriaid, gan ddangos pryd mae'r rhain wedi dechrau a'r amlder a fwriadwyd. Rhaid i | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (2) | Rydw i wedi ffurfio grŵp adolygu gan gymheiriaid gyda dau ddeintydd (mae AGIC wedi cael eu hysbysu o'u henwau) ac rydym yn penderfynu ar bynciau ar gyfer adolygu gan gymheiriaid ar y cyd â Deoniaeth Cymru, a fydd yn rhoi dyddiad cychwyn i ni yn fuan. Bydd AGIC yn cael ei hysbysu ynghylch cynnydd ar hyn erbyn 30 Mehefin 2018. | Dr Amrish Gupta | 30/6/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| gofnodion yr adolygiadau hyn gael eu cadw at ddibenion arolygu. | | | | |
| Rhaid sicrhau bod y trefniadau diogelu data ar gyfer cofnodion papur cleifion yn ddiogel. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>Deddf Diogelu Data 1998 | Yn yr adeilad newydd, mae gan yr ystafell gofnodion glo cod ar y drws. Yn ein heiddo presennol, rydym yn cadw'r ystafell gofnodion dan glo. | Dr Amrish Gupta | Wedi'i gyflawni |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Rhaid i'r deintydd adolygu'r pryderon sylweddol ynghylch safon y llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd yn y practis hwn. Rhaid hysbysu AGIC yn ysgrifenedig o ba fesurau sydd wedi cael eu cymryd i wella ansawdd y rheolaeth ac arweinyddiaeth, er mwyn sicrhau a chynnal diogelwch cleifion. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (2) | Rydym yn symud ein cleifion o'r safle presennol erbyn 31 Mawrth 2018. Rydw i wedi penderfynu cau'r safle presennol, a fydd yn lleihau'r baich gwaith ac arwain at reolaeth well o'r practis cyffredinol. Rwyf hefyd wedi recriwtio rheolwr practis a bydd hi'n ymuno â ni o 1 Chwefror 2018. | Dr Amrish Gupta | 31 Mawrth 2018 |
| Roedd y dogfennau'n anhrefnus ac roedd angen rhoi gwaith cadw tŷ a phrosesau gwell ar waith. | Rheoliadau Deintyddiaeth | Rydw i wedi symud o gofnodion papur i gofnodion digidol o hyn ymlaen, sy'n arwain at gadw cofnodion yn well. Rwyf | Dr Amrish Gupta | Wedi'i gyflawni |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r deintydd gynnal adolygiad system gyfan o brosesau cadw cofnodion. | Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (2) | wedi mynychu cwrs cadw cofnodion, a gafodd ei gynnal gan Ddeoniaeth Cymru, ar 4 Rhagfyr 2017. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):Dr Amrish Gupta**

**Swydd: Prif ddeintydd**

**Dyddiad: 26/01/18**